OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3387 (Cy. 224)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *29 Rhagfyr 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) a chan adrannau 16(1)(a), (b), (c), (d) ac (f), (2)(a) a (3), 17(1), 19(1)(a), 26 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**) a pharagraffau 2(1), 3(1), 5 a 6(1)(a) o Atodlen 1 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**4**)), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

### Diwygiadau i Reoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997

**2.**—(1) Mewn perthynas â Chymru, mae Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997(**5**) yn cael eu diwygio unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Rhoddir y paragraff canlynol yn lle paragraff (1) o reoliad 4 (deunydd buchol penodedig) —

"(1) In these Regulations, "specified bovine material" means —

(**1**) OS 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) 1990 p.16.
(**4**) Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, yn arferadwy bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
(**5**) OS 1997/2965, a ddiwygiwyd gan OS 1997/3062, OS 1998/2045 (a ddiwygiwyd ei hun gan OS 1998/2431), OS 1999/539, OS 2000/656 a OS 2000/2659 (Cy.172).

(a) the intestines from the duodenum to the rectum of any bovine animal which was slaughtered or has died elsewhere than in Australia or New Zealand;

(b) the following material derived from a bovine animal which was slaughtered or has died in the United Kingdom or Portugal at an age greater than 6 months —

(i) the head (excluding the tongue but including the brain, eyes, trigeminal ganglia and tonsils);

(ii) the thymus;

(iii) the spleen; and

(iv) the spinal cord;

(c) in relation to a bovine animal which was slaughtered or has died at an age greater than 30 months, other than one which was accompanied at the time of slaughter by a slaughter certificate issued under the Beef Assurance Scheme as described in Schedule 1 to the Fresh Meat (Beef Controls) (No. 2) Regulations 1996(**6**)), the vertebral column, including dorsal root ganglia; and

(d) the following material derived from a bovine animal which was slaughtered or has died at an age greater than 12 months elsewhere than in the United Kingdom, Portugal, Australia or New Zealand—

(i) the skull (including the brains and eyes);

(ii) the tonsils; and

(iii) the spinal cord.".

**Diwygiad i Orchymyn Risg Penodedig 1997**

**3.**—(1) Mewn perthynas â Chymru, diwygir Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 (**7**) yn unol â pharagraff 2 o'r Rheoliad hwn.

(2) Rhoddir y paragraff canlynol yn lle paragraff (1) o erthygl 4 (deunydd buchol penodedig) —

"(1) In this Order, "specified bovine material" means —

(a) the intestines from the duodenum to the rectum of any bovine animal which was slaughtered or has died elsewhere than in Australia or New Zealand;

(b) the following material derived from a bovine animal which was slaughtered or has died in the United Kingdom or Portugal at an age greater than 6 months —

(i) the head (excluding the tongue but including the brain, eyes, trigeminal ganglia and tonsils);

(ii) the thymus;

(iii) the spleen; and

(iv) the spinal cord;

(c) in relation to a bovine animal which was slaughtered or has died at an age greater than 30 months, other than one which was accompanied at the time of slaughter by a slaughter certificate issued under the Beef Assurance Scheme as described in Schedule 1 to the Fresh Meat (Beef Controls) (No. 2) Regulations 1996), the vertebral column, including dorsal root ganglia; and

(d) the following material derived from a bovine animal which was slaughtered or has died at an age greater than 12 months elsewhere than in the United Kingdom, Portugal, Australia or New Zealand —

(**6**) OS 1996/2097, a ddiwygiwyd gan OS 1996/2522 ac OS 2000/656.
(**7**) OS 1997/2964, fel y'i diwygiwyd gan OS 2000/2811.

(i) the skull (including the brains and eyes);

(ii) the tonsils; and

(iii) the spinal cord.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**).

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Rhagfyr 2000

(**8**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997 (OS 1997/2965) ("Rheoliadau 1997") a Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 (OS 1997/2964 fel y'i diwygiwyd gan OS 2000/2811) ("Gorchymyn 1997") yn diffinio deunydd penodol o anifeiliaid buchol, defaid a geifr yn Ddeunydd Risg Penodedig ac yn cyfyngu ar ddefnyddio deunydd o'r fath i bobl ei fwyta. Mae Rheoliadau 1997 a Gorchymyn 1997 yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 1 o Benderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd a fabwysiadwyd ar 6 Rhagfyr ("y Penderfyniad") mewn perthynas â Chymru. Mae Erthygl 1 o'r Penderfyniad yn diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/418/EC yn rheoli defnyddio deunydd sy'n peri risgiau o ran enseffalopathïau sbyngffurff trosglwyddadwy (OJ Rhif L158, 30.6.2000, t.76) drwy ymestyn y diffiniad o Ddeunydd Risg Penodedig i gynnwys y cyfan o goluddyn anifeiliaid buchol.

Mae Rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4(1) o Reoliadau 1997, sy'n ymdrin â deunydd buchol penodedig. Yn rhinwedd y diwygiad, bydd paragraff (1) newydd yn disodli paragraff 1 presennol rheoliad 4. Bydd y paragraff (1) newydd yn darparu fel a ganlyn —

Diffinnir y coluddyn o'r dwodenwm i'r rectwm bellach yn ddeunydd buchol penodedig, mewn perthynas ag anifeiliaid buchol sydd wedi'u cigydda neu sydd wedi marw mewn mannau heblaw Awstralia neu Seland Newydd (paragraff 1(a));

Diffinnir y pen, y thymws, y ddueg a'r madruddyn cefn sy'n deillio o anifail buchol sydd wedi'i gigydda neu sydd wedi marw yn y Deyrnas Unedig neu Bortiwgal yn fwy na chwe mis oed yn ddeunydd risg buchol (paragraff (1)(b));

Diffinnir yr asgwrn cefn, gan gynnwys ganglia'r nerf ddorsal, sy'n deillio o anifail buchol sydd wedi'i gigydda neu sydd wedi marw yn y Deyrnas Unedig neu Bortiwgal yn fwy na 30 mis oed, yn ddeunydd risg buchol. Ceir eithriad yn achos anifeiliaid buchol sydd wedi'u hardystio o dan y Cynllun Sicrwydd Eidion (paragraff (1)(c));

Diffinnir y benglog, y tonsilau a'r madruddyn cefn sy'n deillio o anifail buchol sydd wedi'i gigydda neu sydd wedi marw y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu Bortiwgal (heblaw Awstralia neu Seland Newydd) dros 12 mis oed, yn ddeunydd risg buchol (paragraff 1(d)).

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff (1) o Erthygl 4 o Orchymyn 1997 yn yr un modd.

Mae ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 wedi digwydd. Yn unol ag adran 65(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 22.3 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, penderfynodd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na ddylid cynnal unrhyw arfarniad rheoleiddiol am nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud hynny o fewn yr amser a oedd ar gael, oherwydd y gofyniad i'r Penderfyniad gael ei weithredu erbyn 1 Ionawr 2001.